Enw _____

DARLLENWCH
Genesis 17: 1-8
18: 1-15, 21: 1-5

ADNOD ALLWEDDOL
Mathew 1: 21

Gwers 3 Teithiau Abraham – Addewidion Duw

Roedd Ben wedi cael addewid y byddai'n cael beic newydd yn anrheg Nadolig. Ond roedd y Nadolig ymhell i ffwrdd! Weithiau roedd Ben yn meddwl tybed a fyddai ei rieni'n cadw'u haddewid, ynteu a fydden nhw'n rhoi rhywbeth arall iddo. Yn araf bach, aeth yr wythnosau a'r misoedd heibio... ac o'r diwedd daeth y Nadolig. Roedd Ben wedi cynhyrfu'n lân, prin y gallai ddisgwyl!. Roedd wrth ei fodd pan welodd y beic newydd sbon danlli, yn union fel yr oedd wedi gobeithio ei gael! Roedd ei rieni wedi cadw'u haddewid!



C Ysgrifennwch rywbeth y cawsoch chi addewid amdano.

Roedd Duw wedi addo teulu mawr i Abram. Un diwrnod fe addawodd Duw hyn eto iddo, ac ar yr un pryd fe newidiodd ei enw.

C Ysgrifennwch lythyren gyntaf pob un o'r pethau isod i gael gweld enw newydd Abram.

1

Roedd enw newydd Abram i fod i'w atgoffa'n barhaus o addewid Duw iddo.

2

C Ysgrifennwch beth mae Genesis 17: 5 yn ei ddweud wrthyn ni am ystyr ei enw newydd.

Aeth blynyddoedd heibio. Erbyn hyn, roedd Abraham yn 99 oed ond doedd dim plant ganddo ef a Sara. Mae'n siwr bod Abraham wedi dechrau credu na fyddai Duw byth yn cadw'i addewid. Yna, un diwrnod, daeth yr addewid yn gliriach nag erioed iddo.

C Rhowch y digwyddiadau hyn yn y drefn gywir trwy roi'r rhifau 1-5 yn y blychau.

- ☐ Gwelodd Abraham dri dyn.
- ☐ Cynigiodd Abraham ddŵr a gorffwys i'r tri dyn.
- ☐ Trefnodd Abraham bryd o fwyd i'r dynion.
- ☐ Roedd Abraham yn eistedd wrth ddrws ei babell.
- ☐ Brysiodd Abraham i gyfarfod â'r dynion



5

Daeth y tri ymwelydd â neges oddi wrth Dduw i Abraham.

C **Darllenwch bennod 18, adnod 10 ac ysgrifennu beth ddywedon nhw fyddai'n digwydd ymhen blwyddyn.**

1

C **Pam roedd Sara'n chwerthin pan glywodd hi hyn? Ticiwch yr ateb cywir.**

☐ Am ei bod hi mor hapus.

☐ Am ei bod hi'n meddwl ei fod yn amhosibl.

1

C **Rhowch y llythrennau yn y drefn gywir i gael enw'r babi.**

CSAIA _ _ _ _ _

1

C **Pa ddwy adnod o'r trydydd Darlleniad o'r Beibl sy'n dweud bod Duw wedi cadw'i addewid?**

Genesis pennod 21, adnodau ☐ a ☐

2

C **Rhowch gylch am oedran Abraham pan gafodd y baban ei eni.**

99 100 80 101 82 96 125

1

Er bod Abraham wedi gorfod disgwyl am flynyddoedd, ni thorrodd Duw ei addewid. Yn y diwedd, daeth yr addewid yn wir, yn union fel y dywedodd Duw y byddai pethau'n digwydd. Mae Gair Duw yn llawn addewidion, yn cynnwys y rhai a wnaeth am b1entyn arall a fyddai'n cael ei eni.

C **Ysgrifennwch yr Adnod Allweddol.**
Dyma un o'r addewidion mwyaf a wnaeth Duw erioed!

1

C **Ceisiwch ddatrys y cod i weld sut y digwyddodd hyn.**

(a = 1, b = 2, c = 3, ch = 4, d = 5, dd = 6, ac yn y blaen)

_ _ _ _ _